# Y Diwydiant Dŵr yng Nghymru

## Ebrill 2015

## Cyflwyniad

Mae'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru yn un o'r meysydd mwyaf cymhleth o fewn y setliad datganoli, yn bennaf oherwydd natur drawsffiniol ffiniau cwmnïau dŵr. Fodd bynnag, efallai y bydd hyn yn newid ar ôl i Gomisiwn Silk argymell ail-alinio'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr gyda'r ffin genedlaethol yn hytrach na ffiniau cwmnïau.

Mae'r diwydiant yn cael ei reoleiddio'n dda i sicrhau ansawdd uchel dŵr yfed, canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol a strwythurau codi tâl teg ar gyfer cwsmeriaid a chwmnïau dŵr fel ei gilydd.

Nod ***Deddf Dŵr 2014***[1] y DU yw gwneud y diwydiant yn fwy arloesol, ymatebol i gwsmeriaid ac yn wydn yn sgil peryglon naturiol.

Mae'r nodyn hwn yn rhoi trosolwg o'r diwydiant yng Nghymru, gan gynnwys y setliad datganoli, y ddeddfwriaeth a'r polisi perthnasol a rolau a chyfrifoldebau sefydliadau allweddol.

## Deddfwriaeth

### Cyfarwyddebau'r UE

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithredu nifer o Gyfarwyddebau Ewropeaidd sy'n ymwneud â pholisi dŵr, sef:

– Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;

– Y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Diwygiedig;

– Y Gyfarwyddeb Nitradau;

– Y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol;

– Y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed;

– Y Gyfarwyddeb Dyfroedd Pysgod Cregyn;

– Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

### Deddfwriaeth y DU

Mae ***Deddf Diwydiant Dŵr 1991*** (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Diwydiant Dŵr 1999*** a ***Deddf Dŵr 2003***) yn nodi'r fframweithiau rheoleiddio, cystadleuaeth a chynrychiolaeth defnyddwyr ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.[2]

Mae ***Deddf Adnoddau Dŵr 1991*** (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Dŵr 2003***) yn darparu ar gyfer rheoleiddio'r gwaith o reoli adnoddau dŵr, tynnu a chronni; a safonau ansawdd dŵr a rheoli llygredd, yng Nghymru ac yn Lloegr.[3]

Mae ***Deddf Dŵr 2014*** yn darparu ar gyfer diwygio'r diwydiant dŵr, yn bennaf yng Nghymru a Lloegr.[4] Mae hyn yn cynnwys galluogi busnesau a chwsmeriaid eraill dibreswyl i newid eu cyflenwyr dŵr a charthffosiaeth o 1 Ebrill 2017 (er nad yw hyn mewn grym yng Nghymru; gweler yr adran 'Cystadleuaeth' isod). Mae Rhan 4 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys mesurau i ymdrin â fforddiadwyedd yswiriant rhag llifogydd.[5] Nod y cynllun arfaethedig ('Flood Re') yw mynd i'r afael ag argaeledd a fforddiadwyedd yswiriant rhag llifogydd i gartrefi sydd mewn perygl o lifogydd yn y DU.[6]

---

[1] ***Deddf Dŵr 2014*** (Pennod 21) [fel ar 19 Ionawr 2015]

[2] Defra, ***Diwygio'r diwydiant dŵr er mwyn cynyddu cystadleuaeth a gwarchod yr amgylchedd*** [fel ar 13 Chwefror 2015]

[3] Water UK, ***Polisi*** [fel ar 13 Chwefror 2015]


[4] ***Deddf Dŵr 2014*** (Pennod 21) [fel ar 19 Ionawr 2015]

[5] *ibid*

[6] Defra, **The Flood Reinsurance Scheme - Regulations** [fel ar 13 Chwefror 2015]

## Cwmnïau Dŵr yng Nghymru

Dangosir y tri phrif gwmni dŵr sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yng Nghymru ar y map isod (noder mai dangosol yn unig yw ffiniau'r cwmnïau):




### Yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru

**Dŵr Cymru**

Mae Dŵr Cymru yn gwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru a rhai ardaloedd cyfagos yn Lloegr. Mae'n gwasanaethu dros dair miliwn o bobl ac ers 2001 mae wedi bod ym mherchnogaeth Glas Cymru.[7]

Mae Glas Cymru yn gwmni un diben a sefydlwyd i berchnogi, ariannu a rheoli Dŵr Cymru. Mae'n 'gwmni cyfyngedig drwy warant' ac oherwydd nad oes ganddo gyfranddalwyr, caiff unrhyw wargedion ariannol eu hailfuddsoddi i mewn i Dŵr Cymru.[8]

**Dŵr Dyffryn Dyfrdwy**

Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn gwmni dŵr yn unig sy'n gwasanaethu cwsmeriaid yng ngogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr. Mae ganddo tua 258,000 o gwsmeriaid.

Sefydlwyd Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ym 1997 drwy uno hen Gwmni Dŵr Wrecsam a Chwmni Dŵr Caer.[9]

### Yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr

**Severn Trent Water**

Mae Severn Trent Water yn gwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n cwmpasu llawer o ganolbarth Lloegr a rhan o ganolbarth Cymru. Mae ganddo dros 4.2 miliwn o gwsmeriaid cartref a busnes ac mae'n rhan o bortffolio o gwmnïau sy'n eiddo i Severn Trent Plc.[10]

Mae Severn Trent Plc yn masnachu ar Gyfnewidfa Stoc Llundain ac mae'n rhan o Fynegai 100 FTSE.[11]

### Amrywiadau a Phenodiadau Newydd

Mae Amrywiadau a Phenodiadau Newydd (sef 'penodiadau disodli' yn flaenorol) yn galluogi'r cyflenwr dŵr neu garthffosiaeth presennol i gael ei ddisodli gan un arall, ar gyfer ardal benodol. O dan feini prawf penodol, mae'n caniatáu i rai cwsmeriaid ddewis cyflenwr gwahanol.

Ceir **penodiad newydd** pan fydd cwmni yn cael ei benodi am y tro cyntaf i ddarparu gwasanaethau dŵr a/neu garthffosiaeth ar gyfer ardal ddaearyddol benodol.

Ceir **amrywiad** pan fydd cwmni sydd eisoes wedi'i benodi yn gofyn i Ofwat amrywio ei benodiad presennol fel y gall ehangu'r ardaloedd y mae'n darparu gwasanaethau iddynt.

[7] Dŵr Cymru, Am y Cwmni, ***Dŵr Cymru*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[8] Dŵr Cymru, Am y Cwmni, ***Glas Cymru*** [fel ar 13 Chwefror 2015]

[9] Dŵr Dyffryn Dyfrdwy, ***Dŵr Dyffryn Dyfrdwy*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[10] Severn Trent, Amdanom Ni, ***Severn Trent Water*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[11] Cyfnewidfa Stoc Llundain, ***Severn Trent*** [fel ar 13 Chwefror 2015]

Gellir caniatáu Amrywiadau a Phenodiadau Newydd yn yr amgylchiadau a ganlyn:

– pan nad yw ardal yn cynnwys unrhyw safle sy'n derbyn gwasanaethau gan gwmni dŵr neu garthffosiaeth a benodwyd (ei bod 'heb ei gweini');

– pan fo cwsmer yn defnyddio (neu'n debygol o ddefnyddio) o leiaf 250 miliwn litr o ddŵr y flwyddyn (yng Nghymru) neu 50 miliwn litr o ddŵr y flwyddyn (yn Lloegr) ym mhob un o'i safleoedd ac mae am newid ei gyflenwr; neu

– pan fo'r cwmni cyfredol a benodwyd yn cytuno i drosglwyddo rhan o'i ardal i gwmni gwahanol.[12]

Gall y sawl a benodir yn llwyddiannus wasanaethu ei gwsmer(iaid) newydd naill ai drwy ddefnyddio ei adnoddau neu ei ddulliau o drin ei hun, neu drwy ofyn am y defnydd o asedau'r cyflenwr trwyddedig cyfredol. Mae Ofwat wedi rhoi dau Amrywiad a Phenodiad Newydd yng Nghymru fel a ganlyn:

– Albion Water, yn Shotton (Sir y Fflint), a roddwyd ar 1 Mai 1999.

– SSE Water, yn Llanilid (Rhondda Cynon Taf), a roddwyd ar 9 Mawrth 2009.

## Datganoli

Mae'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth wedi bod yn un o'r meysydd mwyaf cymhleth o fewn y setliad datganoli. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod ffiniau cwmnïau dŵr, sy'n seiliedig ar rwydweithiau pibellau dŵr a charthffosydd, ac sy'n rhagflaenu'r datganoli, yn adlewyrchu dalgylchoedd afonydd yn hytrach na'r ffin weinyddol rhwng Cymru a Lloegr (fel y dangosir yn y map ar dudalen 2). Fodd bynnag, efallai y bydd hyn yn newid gan fod Comisiwn Silk wedi argymell alinio'r ffin cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr gyda'r ffin genedlaethol (ceir manylion isod) yn y cynllun ar gyfer dyfodol datganoli yng Nghymru.[13]

### Cymhwysedd Deddfwriaethol a Gweithredol

Mae Paragraff 19 o Atodlen 7 i ***Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*** yn datganoli'r canlynol i'r Cynulliad: cyflenwad dŵr, rheoli adnoddau dŵr (gan gynnwys cronfeydd dŵr), ansawdd dŵr, cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth a rheoli'r perygl o lifogydd a diogelu'r arfordir.[14]

Ar hyn o bryd, nid yw'r gwaith o reoleiddio a phenodi unrhyw ymgymerwr dŵr nad yw ei ardal yn **gyfan gwbl neu'n bennaf** yng Nghymru wedi'i ddatganoli.

Mae eithriad hefyd o ran trwyddedu a rheoleiddio cyflenwyr dŵr trwyddedig o fewn ystyr ***Deddf y Diwydiant Dŵr 1991***, ac eithrio rheoleiddio mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig sy'n defnyddio system gyflenwi ymgymerwr dŵr y mae ei ardal yn **gyfan gwbl neu'n bennaf** yng Nghymru.[15]

O dan ***Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991***, mae cymhwysedd gweithredol mewn perthynas â gweithgareddau'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth wedi'i ddatganoli i raddau helaeth mewn perthynas ag ymgymerwyr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru, ond mae rhai eithriadau.

O safbwynt ymarferol, ar lefel syml iawn, mae hyn yn golygu, er y gall Gweinidogion Cymru, er enghraifft, lunio rhai mathau o is-ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ardaloedd penodi neu gyflenwi Dŵr Cymru neu Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn eu cyfanrwydd, (gan effeithio, felly, ar rai cwsmeriaid yn Lloegr), ni fyddai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, o reidrwydd, yn galluogi'r Cynulliad i lunio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â'r un mater, oherwydd efallai na fydd Deddfau'r Cynulliad yn gymwys fel arall mewn perthynas â Chymru (yn ddarostyngedig i Adran 108 (5) o ***Ddeddf***

[12] Ofwat, **Amrywiadau a Phenodiadau Newydd – datganiad o'n polisi**, Ionawr 2014 [fel ar 20 Ionawr 2015]

[13] Llywodraeth y DU, **Powers for a purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales**, 27 Chwefror 2015 [fel ar 27 Chwefror 2015]

[14] Llywodraeth y DU, ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** Pennod 32, 25 Gorffennaf 2006 [fel ar 19 Mawrth 2015]

[15] ***Deddf Diwydiant Dŵr 1991*** Pennod 56 [fel ar 13 Chwefror 2015]

*Llywodraeth Cymru 2006*).

### Argymhellion Comisiwn Silk

Mae'r cyhoeddiad a wnaed ar 27 Chwefror 2015 a oedd yn gosod y cynllun ar gyfer y setliad datganoli nesaf yn nodi y dylai'r pwerau sy'n ymwneud â charthffosiaeth gael eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.[16]

Mae Comisiwn Silk wedi argymell alinio'r ffin cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer dŵr gyda'r ffin genedlaethol. Byddai hyn yn golygu bod rheoleiddio'r diwydiant yng Nghymru ar sail 'yn gyfan gwbl ac yn bennaf' yn dod i ben.

Er y cefnogwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth[17] i Gomisiwn Silk, roedd gan Lywodraeth y DU farn wahanol[18]. Nododd Llywodraeth y DU y byddai unrhyw gynnig i alinio cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru â'r ffin ddaearyddol yn arwain at oblygiadau sylweddol mewn ystod o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys: rheoli adnoddau dŵr; sefydlogrwydd potensial y gyfundrefn reoleiddio; buddsoddi a rheoli asedau; a rhyng-ddibyniaeth y diwydiant dŵr a charthffosiaeth yn drawsffiniol.[19]

Roedd Comisiwn Silk yn cydnabod y byddai alinio'r ffin ddeddfwriaethol a'r ffin genedlaethol fel hyn yn gymhleth a nodwyd yr angen i wneud rhagor o waith ar y goblygiadau ymarferol.[20] Nodwyd yng nghyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi 2015 ar setliad datganoli Cymru y caiff Rhaglen Adolygu'r Llywodraeth ar y Cyd ei sefydlu i ystyried goblygiadau'r newid arfaethedig hwn gyda'r nod o roi'r argymhelliad ar waith os yw'n rhesymol bosibl gwneud hynny.[21] Nid yw'r amserlen ar gyfer yr adolygiad wedi'i benderfynu eto.

Roedd Comisiwn Silk hefyd yn argymell protocol rhynglywodraethol ffurfiol ar faterion dŵr trawsffiniol, a chael gwared ar bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd o blaid dulliau o dan y protocol. Cafodd hyn ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru yn ei thystiolaeth i Gomisiwn Silk hefyd.[22]

## Polisi Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bennu'r polisi strategol ar gyfer dŵr yng Nghymru, y mae'r sefydliadau canlynol yn gweithredu o'u mewn:

- Cwmnïau dŵr **yn gyfan gwbl neu'n bennaf** yng Nghymru - Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy;
- Rheoleiddiwr y farchnad economaidd – Ofwat;
- Rheoleiddiwr yr amgylchedd – Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed; ac
- Awdurdodau lleol.

### Strategaeth Ddŵr i Gymru

**Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Ddŵr newydd i Gymru.**[23]

Yn ei Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd yn 2011, gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o ymrwymiadau sy'n ymwneud â pholisi dŵr. Y prif gamau gweithredu oedd datblygu Strategaeth Ddŵr i Gymru a chymryd camau i fynd i'r afael â fforddiadwyedd dŵr.[24] Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y strategaeth rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2014.[25] Bydd y

[16] Llywodraeth y DU, **Powers for a purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales**, 27 Chwefror 2015 [fel ar 27 Chwefror 2015]
[17] Llywodraeth Cymru, ***Dyfodol Datganoli yng Nghymru,*** 1 Gorffennaf 2014 [fel ar 13 Chwefror 2015]
[18] Gov.uk, ***Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei thystiolaeth i Gomisiwn Silk*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[19] Gov.uk, ***Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei thystiolaeth i Gomisiwn Silk*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[20] Llywodraeth y DU, **Powers for a purpose: towards a lasting devolution settlement for Wales**, 27 Chwefror 2015 [fel ar 27 Chwefror 2015]
[21] *ibid*
[22] Llywodraeth Cymru, ***Dyfodol Datganoli yng Nghymru***, 1 Gorffennaf 2014 [fel ar 13 Chwefror 2015]
[23] Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Ddŵr i Gymru**, 25 Ebrill 2014 [fel ar 16 Ionawr 2015]
[24] Llywodraeth Cymru, ***Y Rhaglen Lywodraethu, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd,*** 2011 [fel ar 13 Chwefror 2015]
[25] Llywodraeth Cymru, **Ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddŵr i Gymru**, 7 Ebrill 2014 [fel ar 16 Ionawr 2015]

strategaeth yn amlinellu cyfeiriad polisi ar ystod o faterion, gan gynnwys:

– Defnydd tir a'r amgylchedd;

– Rheoli adnoddau dŵr a gwerth dŵr;

– Effeithlonrwydd dŵr;

– Rheoleiddio'r diwydiant dŵr yn y dyfodol;

– Fforddiadwyedd a mesuryddion; a

– Gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth: cyhoeddus a phreifat.[26]

Disgwylir i'r strategaeth derfynol gael ei chyhoeddi maes o law.

## Rheoliadau Dyled Ddrwg

Gosododd Llywodraeth Cymru ei Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchenogion) 2014 gerbron y Cynulliad ar 3 Rhagfyr 2014. Daeth y Rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2015. Yn 2014, cynigiodd Llywodraeth Cymru Reoliadau 'Dyled Ddrwg' i helpu'r diwydiant dŵr i leihau'r ddyled o ganlyniad i filiau heb eu talu a helpu i leihau biliau. Ar hyn o bryd, caiff y gost o ddyled lle na chaiff biliau dŵr eu talu ei chwmpasu gan bob cwsmer sy'n talu'r cwmni dŵr, gan ychwanegu tua £20 y flwyddyn at bob bil.

Gan fod llawer o ddyledwyr dŵr yn denantiaid, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ddyletswydd ar landlordiaid i ddarparu manylion am eu cyfeiriad eu hunain ynghyd ag enw'r tenant, dyddiad geni a'r dyddiad iddynt ddechrau deiliadaeth. Os na fydd landlordiaid yn darparu'r wybodaeth hon, maent yn atebol ar y cyd am dalu taliadau dŵr yn yr eiddo lle mae'r tenant yn byw.[27]

## Canllaw Tariffau Cymdeithasol

Yn 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllaw Tariffau Cymdeithasol ar gyfer cwmnïau dŵr. Mae'r Canllaw Tariffau Cymdeithasol yn caniatáu i gwmnïau dŵr sefydlu croes-gymhorthdal i helpu cartrefi sy'n cael trafferth talu eu biliau dŵr. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi pennu terfyn uwch, cred y dylai hyd at 2.5% o fil dŵr a charthffosiaeth cyfartalog cwmni fod yn lefel resymol o groes-gymhorthdal.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i gwmnïau dŵr ystyried mesurau i wella fforddiadwyedd dŵr, fel cynnig cyngor ar effeithlonrwydd dŵr, mesurau i wella'r broses o reoli biliau a'u talu a chyngor i gartrefi ar ddewis mesurydd i leihau eu biliau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn adolygu'r canllaw ar ôl cyhoeddi ei strategaeth ddŵr newydd.[28]

## Cystadleuaeth

Mae ***Deddf Dŵr 2014*** – gweler yr adran ar ddeddfwriaeth y DU ar dudalen 1 – yn cynnwys mesurau i ganiatáu i fusnesau a chwsmeriaid eraill dibreswyl newid cyflenwr dŵr a charthffosiaeth os ydynt am wneud hynny. Fodd bynnag, **nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â chyflwyno cystadleuaeth i'r farchnad ddibreswyl yng Nghymru.**

Dywedodd Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn unrhyw fodelu neu dystiolaeth glir eto i ddangos manteision cystadleuaeth[29] ac nad yw Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddilyn y cyfarwyddyd a amlinellir gan Lywodraeth y DU drwy fod yn 'or-ddibynnol' ar gystadleuaeth.

---

[26] *ibid*

[27] Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad ar ymdrin â 'dyled ddrwg' yn y diwydiant dŵr yng Nghymru*** [fel ar 16 Chwefror 2015]

[28] Llywodraeth Cymru, ***Canllaw Tariffau Cymdeithasol*** [fel ar 19 Ionawr 2015]

[29] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, **ES(4)-13-13: Papur 1 – Ymchwiliad i bolisi dŵr yng Nghymru – Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd,** 1 Mai 2013 [fel ar 13 Chwefror, 2015]

Dywedodd y Gweinidog:

> Rwy’n credu bod gennym gwmni, yn Dŵr Cymru, sy’n gwneud job arbennig o dda, ac mae gennym yn Glas Cymru fframwaith a system o gyflenwi dŵr sy’n gweithio i bobl Cymru ac sydd wedi dod â buddsoddiad i mewn i’r system ac sydd wedi lleihau biliau. ... Felly, ni hoffwn weld y math o gystadleuaeth y mae Llywodraeth San Steffan yn ei drafod ar hyn o bryd yn ein system ni yng Nghymru.[30]

## Rheoliadau

Mae'r diwydiant dŵr yn cael ei reoleiddio'n dda. Mae rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol reoleiddwyr a sefydliadau perthnasol eraill wedi'u nodi isod.

### Ofwat

Ofwat (neu'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr) yw'r rheoleiddiwr economaidd ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'n gweithredu'n annibynnol ar ddiwydiant a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ond o fewn fframwaith polisi a bennwyd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.[31]

Ei brif ddyletswyddau yw sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd da yn cael eu darparu i gwsmeriaid, gan sicrhau bod gan gwmnïau dŵr y cyllid sydd ei angen i ddarparu eu gwasanaethau yn briodol. Mae hefyd yn annog cystadleuaeth pan fo hyn o fudd i ddefnyddwyr. Mae ei brif ddyletswyddau wedi'u nodi yn ***Neddf Diwydiant Dŵr 1991*** (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Dŵr 2003***). Mae gan Ofwat ddyletswyddau eilaidd hefyd, sef cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a hyrwyddo effeithlonrwydd.

Mae Ofwat yn cyfyngu ar y prisiau y gall cwmnïau dŵr eu codi drwy ei broses Adolygu Prisiau. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau dŵr yn gweithredu fel monopolïau sy'n golygu nad oes gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr unrhyw ddewis o ran darparwr. Felly, Ofwat, sy'n pennu'r terfynau pris y gall pob cwmni unigol eu codi. Mae'n gwneud hyn drwy graffu ar Gynlluniau Busnes cwmnïau dŵr a chydbwyso'r angen am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy gyda'r buddsoddiad sydd ei angen ar y cwmnïau i gynnal a gwella isadeiledd a bodloni safonau amgylcheddol. Cynhelir adolygiadau prisiau bob pum mlynedd; cynhaliwyd yr adolygiad prisiau ar gyfer y cyfnod 2015-2020 yn 2014.[32]

Mae Ofwat hefyd yn gyfrifol am fonitro perfformiad cwmnïau mewn perthynas â chanlyniadau polisi allweddol ac am bennu targedau ar gyfer effeithlonrwydd a gollyngiadau. Mae Ofwat wedi pennu targedau blynyddol ar gyfer lleihau gollyngiadau hyd at 2015 a gall gymryd camau os bydd cwmnïau'n methu â chyrraedd y targedau hyn.[33]

Mae gan Lywodraeth Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gydag Ofwat.[34]

Cyflwynodd *Deddf Dŵr 2014* ddyletswydd statudol newydd ar Ofwat, a Gweinidogion Cymru ac ysgrifennydd yr amgylchedd ar gyfer y DU, er mwyn sicrhau bod systemau dŵr a charthffosydd yng Nghymru a Lloegr yn gallu gwrthsefyll llifogydd, sychder a newidiadau i'r boblogaeth a'r hinsawdd. Mewn ymateb, sefydlodd Ofwat grŵp annibynnol ym mis Ionawr 2015, er mwyn helpu i ddiffinio beth yw ystyr gwydnwch y sector dŵr mewn gwirionedd, a beth fydd rôl a chyfrifoldebau rheoleiddio Ofwat.

### Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli adnoddau dŵr, a monitro a gwella ansawdd dŵr - gan gynnwys dŵr croyw, dŵr morol, dŵr wyneb a dŵr tanddaearol yng Nghymru.

Mae pwerau a dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru

[30] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ***Cofnod y Trafodion [paragraff 5]***, 1 Mai 2013 [fel ar 13 Chwefror 2015]
[31] **Ofwat** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[32] Ofwat, ***Adolygiad Prisiau 2014*** [fel ar 19 Ionawr 2015]
[33] Ofwat, ***Gollyngiadau*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[34] Llywodraeth Cymru, ***Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)***, 10 Rhagfyr 2010 [fel ar 13 Chwefror 2015]

wedi cael eu hetifeddu o hen Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru[35] a chaiff y ddeddfwriaeth berthnasol ei nodi yng ***Ngorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013***.[36] Mae'n gyfrifol am weithredu a gorfodi rheoliadau, polisïau a thrwyddedau sy'n ymwneid â:

– Dŵr wyneb a dŵr daear;

– Tynnu dŵr, effeithlonrwydd ac ansawdd;

– Rheoli adnoddau dŵr yng Nghymru a sicrhau bod cwmnïau dŵr yn darparu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr;

– Cyflafareddu rhwng unigolion ac ymgymerwyr carthffosiaeth o ran prif gyflenwad cysylltiad carthffosiaeth;

– Rheoleiddio tanciau septig a chyflenwadau dŵr preifat; ac

– Ystyried sut y mae datblygiadau newydd yn effeithio ar ddŵr drwy'r broses Asesiad Effaith Amgylcheddol.[37]

## Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Mae'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr ac yn anelu at ddarparu sicrwydd annibynnol bod cyflenwadau dŵr cyhoeddus yn ddiogel a bod ansawdd dŵr yfed yn dderbyniol i ddefnyddwyr.[38] Mae'n gyfrifol am wirio'r profion a gwblhawyd gan gwmnïau dŵr ac archwilio labordai cwmnïau dŵr yn annibynnol.

Pan fo methiannau mewn safonau, gall ddefnyddio ei bwerau gorfodi i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr fynd i'r afael â gwraidd y broblem, cynnal ymchwiliadau a gwneud argymhellion i sicrhau nad yw problemau'n codi yn y dyfodol. Caiff ei bwerau a'i ddyletswyddau eu nodi yn ***Neddf Diwydiant Dŵr 1991***[39] (fel y'i diwygiwyd gan ***Ddeddf Dŵr 2003***[40]).

Caiff y Prif Arolygydd Dŵr Yfed ei benodi ar y cyd gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.

## Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Nid yw'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn rheoleiddiwr, ond mae'n gyfrifol am gynrychioli cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.[41] Cafodd ei greu o dan ***Ddeddf Dŵr 2003*** ac mae ganddo bwyllgor a swyddfa yng Nghymru.[42]

Gall y Cyngor gyflwyno cwynion cwsmeriaid i gwmnïau dŵr pan maent wedi ceisio ac wedi methu â chodi'r materion hyn yn uniongyrchol gyda'r cwmni. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal gwaith ymchwil ar brofiadau a safbwyntiau cwsmeriaid ac yn bwydo hyn i'r awdurdodau eraill. Mae hefyd yn chwarae rôl yn cynrychioli cwsmeriaid ym mhroses Adolygu Prisiau Ofwat.

## Awdurdodau Lleol

O dan ***Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991***, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o 'iachusrwydd a digonolrwydd' cyflenwadau dŵr yn eu hardal.[43] Os ydynt o'r farn y gall y cyflenwad dŵr fod yn annigonol, neu ei fod yn annigonol, yna mae dyletswydd arnynt i roi gwybod i'r cyflenwyr dŵr sy'n gorfod cymryd camau ar ôl derbyn y wybodaeth hon. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am fonitro cyflenwadau dŵr preifat yn eu hardal a gallant, o bryd i'w gilydd, samplo dyfroedd ymdrochi a chyflenwadau dŵr cyhoeddus.

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol hefyd rôl drwy'r broses gynllunio o asesu pa mor ddigonol yw'r cyflenwadau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer datblygiadau newydd ac effaith unrhyw ddatblygiadau posibl ar systemau draenio trefol cynaliadwy a pherygl llifogydd lleol.

---

[35] Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013 ar ôl uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.
[36] ***Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[37] Cyfoeth Naturiol Cymru, ***Polisi Dŵr*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[38] Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, ***Amdanom ni*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[39] ***Deddf Diwydiant Dŵr 1991*** Pennod 56 [fel ar 13 Chwefror 2015]
[40] ***Deddf Dŵr 2003*** Pennod 37 [fel ar 13 Chwefror 2015]
[41] Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, ***Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr - amdanom ni*** [fel ar 13 Chwefror 2015]
[42] ***Deddf Dŵr 2003*** Pennod 37 [fel ar 13 Chwefror 2015]
[43] ***Deddf Diwydiant Dŵr 1991*** Pennod 56 [fel ar 13 Chwefror 2015]

## Rhagor o wybodaeth

For further information about the **Water Industry in Wales**, please contact **Elfyn Henderson** (elfyn.henderson@assembly.wales), Research Service.

**See also:**

– Research Service Quick Guide: **Water Quality in Wales**

– Welsh Government, **Water**

– **Ofwat**

– Natural Resources Wales, **Water Policy**

– **Drinking Water Inspectorate**

– Consumer Council for Water, **Wales**

– **Dŵr Cymru Welsh Water**

– **Dee Valley Water**

– **Severn Trent Water**

View our **full range of publications** on the Assembly website: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

We welcome your comments. These should be sent to: **Research Service, National Assembly for Wales, Cardiff, CF99 1NA** or e-mailed to **Research.Service@assembly.wales.**

The Research Service has produced this Research Note for the benefit of Assembly Members and their support staff. Authors are available to discuss the contents of these papers with Members and their staff but cannot advise members of the general public.

**Enquiry no: 15/0121**